

## Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-20-00(min)

### COFNODION

**Dyddiad:** Dydd Mercher, 22nd Tachwedd 2000

**Amser:** 9.00 i 12.30pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

#### **Yn bresennol: Aelodau**

Kirsty Williams (Cadeirydd)	Aberhonddu a Sir Faesyfed
Geraint Davies	Rhondda
Delyth Evans	Canolbarth a Gorllewin Cymru ( <b>Eitem 4 yn unig</b> )
Brian Gibbons	Aberafan
Brian Hancock	Islwyn
Jane Hutt (Gweinidog)	Bro Morgannwg
Ann Jones	Dyffryn Clwyd
Helen Mary Jones	Llanelli ( <b>Eitem 4 yn unig</b> )
Dai Lloyd	De Orllewin Cymru
David Melding	Canol De Cymru
Lynne Neagle	Torfaen

#### **Yn bresennol**

Brian Davis	Cyfarwyddwr Meddygol Dros Dro, Ymddiriedolaeth NHS Sir Gaerfyrddin
Elizabeth Fradd	Cyfarwyddwr Nyrsio, y Comisiwn Gwella Iechyd

Stuart Gray	Prif Weithredwr, Awdurdod Iechyd Dyfed Powys
Y Fonesig Deirdre Hine	Cadeirydd, y Comisiwn Gwella Iechyd
Dr Peter Homa	Cyfarwyddwr Gwella Iechyd, y Comisiwn Gwella Iechyd
Mike Jones	Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth NHS Sir Gaerfyrddin
Martin Morris	Prif Swyddog, Cyngor Iechyd Cymunedol Llanelli
Tom Norreys	Cadeirydd, Ymddiriedolaeth NHS Sir Gaerfyrddin
Margaret Tozer	Rheolwr Ymchwilio, y Comisiwn Gwella Iechyd
<b>Swyddogion</b>	
Dr Bernadette Fuge	Is-Adran Ansawdd yr NHS
Dr Ruth Hall	Prif Swyddog Meddygol
Rosemary Johnson	Is-Adran Nyrsio
Rosemary Kennedy	Prif Swyddog Nyrsio
Tim Kirby	Is-Adran Rheoli Perfformiad
Peter Lawler	Is-Adran Iechyd Sylfaenol a Chymunedol
Dr Jane Ludlow	Uwch Swyddog Meddygol
Helen Thomas	Cyfarwyddwraig, Grwp Polisi Cymdeithasol
Jane Westlake	Clerc y Pwyllgor
Claire Morris	Dirprwy Glerc y Pwyllgor

## **Eitem 1: Ymddiheuriadau ac Amnewidiadau**

1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau nac amnewidiadau.

1.2 Atgoffwyd yr aelodau o'r gofyniad, o dan Reol Sefydlog 4.5, i ddatgan unrhyw fudd cyn cymryd rhan yn y gweithrediadau. Gwnaed y datganiadau canlynol:

Dai Lloyd; Ymarferydd Cyffredinol ac aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe;

Geraint Davies; Fferyllydd ac aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf;

Brian Hancock; Ymgynghorydd iechyd, diogelwch a'r amgylchedd hunan-gyflogedig, Ymarferydd Diogelwch Cofrestredig (RSP) ac yn briod â bydwaig gymunedol.

## **Eitem 2: Adroddiad Misol y Gweinidog**

### **Papur: HSS-20-00(p.1)**

2.1 Gwnaeth Jane Hutt ddatganiad ar ffigurau rhestrau aros ysbytai ar gyfer mis Hydref 2000, y mae copi ohono wedi'i hatodi yn Atodiad A.

2.2 Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau ar yr adroddiad misol, gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau canlynol:

- Roedd awdurdodau iechyd ar y trywydd cywir i gwrdd â'r targedau lleihau amseroedd aros erbyn mis Mawrth 2001.
- Gallai pwysau dros gyfnod y gaeaf effeithio ar amseroedd aros.
- Byddai Strategaeth NHS Cymru yn unigryw i Gymru.
- Sefydlwyd is-grwp, o dan arweiniad y Prif Swyddog Meddygol, i ystyried cynigion ar gyfer ail-ddilysiad meddygol yng Nghymru. Roedd y cynigion hyn yn destun ymgynghoriad ac roedd y Cynulliad wedi cyfrannu at y broses.
- Sefydlwyd grwp tasg a chwblhau i edrych ar adnoddau dynol, a byddai targedau ar gyfer niferoedd staff ar draws pob maes proffesiynol wedi'u nodi erbyn mis Ebrill 2001.
- Nid oedd unrhyw dargedau ar hyn o bryd ar gyfer gweithdrefnau ymchwiliol cardiaidd, e.e. angiogramau. Byddai'r Gweinidog yn trafod hyn gyda chynrychiolwyr o'r NHS ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.
- Nodwyd Arolwg Iechyd Cymru fel ffordd unigryw o fesur anghenion iechyd yn uniongyrchol nad oedd ar gael unman arall yn y DU. Roedd y Grwp Llywio Cenedlaethol yn awyddus i chwilio am ffyrdd o'i ddefnyddio wrth ddatblygu fformwla dosbarthu adnoddau yng Nghymru a gallai hyn greu ymagwedd wahanol i'r un yn Lloegr a'r Alban. Roedd y grwp wedi ystyried canfyddiadau Adroddiad Arbuthnott ac roedd wedi cwrdd â Syr John Arbuthnott i drafod yr adroddiad.
- Roedd yn bwysig sicrhau bod y fformwla dosbarthu adnoddau'n hyblyg ac yn cydnabod anghenion a blaenoriaethau newidiol. Roedd hefyd wedi dod yn amlwg bod angen mwy o

wybodaeth ar sut roedd yr arian yn cael ei wario ac roedd Is-Adran Gyllid yr NHS wrthi'n nodi costau'r gwasanaethau. Byddai'r Grwp Llywio Cenedlaethol yn cwrdd ar 20 Rhagfyr i ystyried ei adroddiad ar y canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg ac estynwyd gwahoddiad i'r aelodau fynychu.

- Derbyniwyd 215 o ymholiadau a 38 o geisiadau mewn ymateb i'r hysbyseb ar gyfer swydd y Comisiynydd Plant.

### 2.3 Gwnaeth yr aelodau y pwyntiau canlynol hefyd:

- Gwnaed ymholiad ynglyn â'r gymhariaeth rhwng y targedau amseroedd aros yng Nghymru a Lloegr, yn arbennig o ran gwasanaethau cardiaidd a'r targed i gyflawni gostyngiad o 15,000 yng Nghymru erbyn mis Mawrth 2001.
- Gofynnwyd i'r Gweithgor Recriwtio a Chadw edrych ar ddatblygiad galwedigaethol i gynorthwywyr gofal iechyd.
- Dylid arolygu fformwla dyrannu adnoddau'r NHS yn rheolaidd a dylai fynd i'r afael ag anghenion ardaloedd gwledig ac ardaloedd prin eu poblogaeth.
- Er mwyn i'r fformwla fod yn gadarn roedd angen ymatebion gwych i'r cyfrifiad a chydnabu'r aelodau'r angen am ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd.
- Mynegwyd pryder bod yr ystadegau a ddefnyddiwyd yn Arolwg Iechyd Cymru yn seiliedig ar ardaloedd trefol.
- Gofynnodd yr aelodau am fwy o wybodaeth am sefydlu Awdurdod Asesu Clinigol Cenedlaethol.
- Mynegwyd pryderon ynglyn â'r cynigion ar gyfer y Cyngor Galwedigaethau Iechyd newydd a lefel y gynrychiolaeth o Gymru arno. Gofynnodd yr aelodau am fwy o wybodaeth ar ganlyniadau'r ymarferiad ymgynghori.
- Mynegwyd cefnogaeth i'r cynnig i ymestyn diogelwch teitlau proffesiynol i gwmpasu teitlau cyffredin.
- Dylid annog awdurdodau lleol i ddilyn esiampl y Cynulliad Cenedlaethol o ran sefydlogi'r arian y maent yn ei dalu i'r sector gwirfoddol. Awgrymwyd y dylid cyfeirio hyn i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i'w fwrw ymlaen.
- Gwnaed cais am wybodaeth bellach ar gostau sefydlu a rhedeg NHS Uniongyrchol Cymru, ynghyd â chrynodeb o'r galwadau a dderbyniwyd a sut yr ymdriniwyd â hwy.
- Roedd yn bwysig sicrhau bod y sector annibynnol yn cael cyfrannu'n sylweddol i unrhyw arolwg o wasanaethau ar gyfer yr henoed.

### Gweithredu

Byddai David Melding yn ysgrifennu at y Gweinidog yn amlygu ei bryderon ynglyn â chymhariaeth â thargedau amseroedd aros yn Lloegr.

Byddai manylion y mentrau sydd ar waith i ddatblygu rôl cynorthwywyr gofal iechyd ar gael mewn adroddiad misol yn y dyfodol.

Byddai copïau o bapurau Grwp Arolwg Dosbarthu Adnoddau'r NHS a'r is-grwp ar gael yn Llyfrgell yr

Aelodau.

Byddai papur yn cael ei ddarparu ar sefydlu'r Awdurdod Asesu Clinigol Cenedlaethol ac argymhellion Grwp Llywio Cymru.

Byddai ymatebion yr ymgynghoriad ar yr arolwg mabwysiadu a'r cynigion ar gyfer y Cyngor Galwedigaethau Iechyd newydd ar gael i aelodau.

Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai gan amlygu pryderon y Pwyllgor ynglyn â'r ffordd y cafodd sefydliadau gwirfoddol lleol eu hariannu.

Byddai papur ar sefydlu NHS Uniongyrchol Cymru, ei gostau rhedeg a dadansoddiad o'r ffordd yr ymdriniwyd â'r galwadau'n cael ei ddarparu.

### **Eitem 3: Gwasanaethau Anffrwythlondeb yng Nghymru**

#### **Papur: HSS-20-00(p.2)**

3.1 Yn ystod y drafodaeth, gwnaeth yr aelodau y pwyntiau canlynol:

Roedd rhai pobl yn wynebu anhawster o ran cael triniaeth ffrwythlondeb ar ddwy lefel: yr ardal ble maent yn byw a diffyg adnoddau ariannol annibynnol i dalu am driniaeth breifat. Roedd angen ymagwedd strategol ar gyfer Cymru gyfan. Byddai angen cytuno ar lefel y gwasanaethau y gellid ei darparu a chyflwyno hyn ym mhob rhan o Gymru.

Roedd y meini prawf a ddefnyddiwyd i gytuno ar fynediad at wasanaethau ffrwythlondeb hefyd yn amrywio rhwng awdurdodau iechyd ac roedd angen safon cytûn.

- Dylid rhoi ystyriaeth i gymryd nawdd ar gyfer gwasanaethau ffrwythlondeb o ddyraniad refeniw disgresiwn yr awdurdodau iechyd lle roedd yn cystadlu am arian gyda blaenoriaethau megis gwasanaethau'r galon a gwasanaethau canser.

3.2 Roedd y Pwyllgor yn pryderu am anghydraddoldebau o ran mynediad at driniaeth ffrwythlondeb ar draws Cymru. Dywedodd y Gweinidog bod yr awdurdodau iechyd yn ymwybodol o'r problemau a sefydlwyd grwp ymgynghorol i edrych ar bolisi safoni ledled Cymru. Roedd y Pwyllgor yn edrych ymlaen at dderbyn argymhellion y grwp yn y man.

### **Eitem 4: Ymddiriedolaeth NHS Sir Gaerfyrddin – Adroddiad y Comisiwn Gwella Iechyd (CHI)**

#### **Papur: HSS-20-00(p.3)**

4.1 Ymunodd Delyth Evans a Helen Mary Jones â'r cyfarfod, oherwydd bod y drafodaeth yn berthnasol i fuddiannau eu hetholaeth / rhanbarth. Cytunodd y Pwyllgor y dylid caniatáu iddynt ymuno yn y drafodaeth.

4.2 Rhoddodd y Fonesig Deirdre Hine gyflwyniad byr ar waith cyffredinol y Comisiwn Gwella Iechyd (CHI) a'r arolwg o'r trefniadau rheolaeth glinigol y gofynnwyd iddynt ymgymryd â hwy yn Ymddiriedolaeth NHS Sir Gaerfyrddin. Cydnabyddodd y gwaith a wnaed eisoes a thalodd deyrnged i'r staff ymroddedig a brwdfrydig yn yr Ymddiriedolaeth a oedd yn gweithio'n galed iawn i ddarparu gofal da i'w cleifion.

4.3 Mewn ymateb i sylwadau a wnaed gan aelodau, rhoddodd CHI yr ymatebion canlynol:

- Roedd y tîm archwilio yn ymwybodol o hanes sefydlu'r Ymddiriedolaeth, y gwrthwynebiad i'r ailgyfluniad a'r amgylchiadau ariannol yr oeddent yn gweithredu ynddynt.
- Canfu bod y theatr yn Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru yn hen a chyfyngedig iawn a gallai hyn ychwanegu at y pwysau, ond nid oedd yr amodau'n waeth na'r hyn a welir mewn nifer o ysbytai eraill.
- Nid oedd unrhyw strwythur mewn grym i sicrhau y gallai safbwyntiau cleifion neu glinigwyr ddylanwadu ar yr agenda rheolaeth glinigol. Roedd y gyllideb nyrsio yn cael ei chadw a'i rheoli'n ganolog ac nid oedd hyn yn cyd-fynd â'r ffordd yr oedd yr Ymddiriedolaeth yn dymuno datblygu maes rheolaeth glinigol.
- Nid oedd nifer y nyrsys o asiantaethau a oedd yn gweithio yn yr Ymddiriedolaeth yn broblem. Fodd bynnag, roedd ymagwedd gyson yn bwysig ac argymhellwyd y dylid cael gweithdrefn a fyddai'n galluogi i staff asiantaethau gael eu hyfforddi ar bolisi a gweithdrefnau'r Ymddiriedolaeth.
- Wrth ddod â thîm arolwg CHI ynghyd, rhoddwyd ystyriaeth ofalus i'r sgiliau a fyddai eu hangen a'r angen am gymaint o annibyniaeth â phosibl. Roedd hefyd wedi ystyried ei bod yn bwysig i bobl o du allan i Gymru gael cyfle i edrych ar yr hyn a oedd yn digwydd yng Nghymru a rhoi eu barn ar sut yr oedd y gwahaniaethau a'r newidiadau yn effeithio ar ofal cleifion yn eu tyb hwy. Roedd pobl o Gymru'n cymryd rhan mewn arolygon a oedd yn cael eu cynnal yn Lloegr.
- Treuliwyd pum diwrnod ar y safle gyda'r Ymddiriedolaeth a thri diwrnod ychwanegol yn cwrdd â chyfranddeiliaid. Byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i p'un a ddylai hyn fod yn gyfnod hwy mewn arolygon yn y dyfodol, pan fyddai'r arolygon cynnar yn cael eu gwerthuso.
- Roedd yn anochel y byddai'r mwyafrif o'r cleifion a fyddai'n gwirfoddoli eu safbwyntiau ar y driniaeth yn mynegi barn negyddol. Roedd CHI wedi hysbysebu ar deledu a radio lleol ac mewn papurau lleol ond cydnabyddasant bod angen mwy o ystyriaeth ar y maes hwn, ac ers cynnal yr ymchwiliad, roedd eu hadran gyfathrebu wedi ehangu.
- Roedd y tîm wedi siarad â meddygon a nyrsys er bod uwch glinigwyr wedi'u cyfweld yn breifat a'r nyrsys wedi cael eu cyfweld fel grwp. Cytunwyd bod hwn yn faes y gallai fod angen newid mewn ymagwedd arno.
- Roedd fersiwn Cymraeg o'r adroddiad yn cael ei baratoi. (Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor, oherwydd y pwysigrwydd oedd ynghlwm â'r Pwyllgor yn trafod yr adroddiad cyn gynted â phosibl a'r amserlenni dan sylw, cytunodd llefaryddion y pleidiau y gallai CHI gyflwyno

adroddiad Saesneg yn unig.)

- Hysbyswyd yr Ymddiriedolaeth a Bwrdd yr Iaith Gymraeg nad oedd unrhyw aelod o'r tîm yn siarad Cymraeg.
- Ystyriwyd na fyddai'n bosibl cymharu perfformiad Sir Gaerfyrddin gydag ymddiriedolaethau eraill hyd nes y byddai CHI wedi cynnal mwy o arolygon.
- Ystyriwyd, er bod y strwythurau i hyrwyddo rheolaeth glinigol yn gymhleth yn Sir Gaerfyrddin, roedd strwythurau tebyg yn llwyddo mewn sefydliadau eraill.
- Roedd cyfraniad aelodau lleig yn hollbwysig o ran bwydo profiad y claf i'r agenda rheolaeth glinigol.

4.4 Amlygodd Tom Norreys, Cadeirydd Ymddiriedolaeth NHS Sir Gaerfyrddin, gefndir y problemau, y gwrthwynebiad i'r uno a'r dymuniad i Ysbyty Cyffredinol y Tywysog Philip ac Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru barhau i fod yn sefydliadau ar wahân. Dywedodd bod ymagwedd raddol tuag at gyflunio wedi'i mabwysiadu a nodwyd targed ar gyfer integreiddio llwyr sef mis Gorffennaf 2000. Roedd yr Ymddiriedolaeth wedi croesawu ymchwiliad CHI a byddai'n gweithio gyda hwy i fynd i'r afael â meysydd a oedd yn peri pryder. Siaradodd hefyd am yr effaith andwyol a gafwyd ar forâl y staff yn sgîl cyhoeddi datganiad CHI i'r wasg yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad a'r sylw dilynol a gafwyd gan y cyfryngau.

4.5 Darparodd Mike Jones, Prif Weithredwr yr ymddiriedolaeth, eglurhad ar nifer o'r meysydd a oedd yn peri pryder a nodwyd yn yr adroddiad:

- Nid oedd yr Ymddiriedolaeth yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth o dderbyniadau amhriodol i adran Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty'r Tywysog Philip nac unrhyw dor-rheolau o ran protocol.
- Yn dilyn marwolaeth Mr Reeves, cymerwyd camau gweithredu ar unwaith er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau cadarn ar waith. Cynhaliodd Cronfa Risg Cymru asesiad o'r gweithdrefnau ym 1999 a chanfu ei fod yn unol ag arfer gorau. Fodd bynnag, cydnabuwyd y gellid gwneud gwelliannau pellach.
- Ers i'r ddwy safle gael eu hintegreiddio'n llwyr ym mis Gorffennaf, cafodd yr un gweithdrefnau eu mabwysiadu drwy'r ymddiriedolaeth gyfan.
- Nid oedd unrhyw dystiolaeth nad oedd y weithdrefn ar gyfer marcio lluniau pelydr X yn unol â'r safonau cenedlaethol. Pan fo marcio â llaw yn angenrheidiol, defnyddiwyd teclyn tyllu.

4.6 Mewn ymateb i sylwadau gan aelodau, cyflwynodd cynrychiolwyr yr Ymddiriedolaeth yr ymatebion canlynol:

- Nid oeddent yn cytuno bod lefel hyder y cyhoedd yn isel ac roeddent o'r farn bod y sefyllfa wedi gwella yn ystod y misoedd diwethaf.
- Byddent yn ymchwilio i'r ffaith nad oedd sganiwr MRI wedi bod ar gael ar y penwythnos cyn y cyfarfod.
- Roedd y genaradur wedi torri yn ystod y penwythnos cyn y cyfarfod, ond roedd gweithdrefn

rheoli risg yr Ymddiriedolaeth wedi cael ei rhoi ar waith a oedd wedi golygu y gallai'r gwasanaethau barhau.

- Roedd y Gyfarwyddwraig Nyrsio'n parhau ymateb cadarn i'r materion nyrsio sydd yn yr adroddiad ar gyfer cyfarfod nesaf Bwrdd yr Ymddiriedolaeth. Byddent hefyd yn ystyried cael nyrs gofrestredig ychwanegol ar ddyletswydd cynnar ar y ward.
- Nid oedd yr Ymddiriedolaeth yn cytuno â barn CHI bod gormod o feddygon yn wynebu gweithdrefnau disgyblu. Roeddent o'r farn bod materion disgyblu'n cael eu datrys mewn modd a oedd mor gyflym a theg â phosibl.
- Nid oedd ganddynt drosiant uchel o ran staff nyrsio na phroblemau recriwtio arbennig, ac nid oeddent o'r farn eu bod yn profi'r un lefel o anhawster ag ymddiriedolaethau eraill.
- Roedd Cyfarwyddwr Personél a Chyfarwyddwr Datblygiad a Hyfforddiant Trefniannol wedi bod yn eu swyddi ers mis Gorffennaf a lluniwyd manyleb i wahodd tendrau er mwyn darparu gwasanaethau adnoddau dynol.
- Roedd gan yr Ymddiriedolaeth enw da o ran delio â chwynion ond roeddent yn cytuno y gallent ymateb yn gyflymach.
- Roedd gwaith cysylltiadau cymunedol helaeth ar waith. Yn ogystal, roedd y Prif Weithredwr yn mynychu cyfarfodydd y Cyngor Iechyd Cymunedol yn rheolaidd a chyfarfodydd grwpiau cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Cytunwyd bod angen system er mwyn cydlynu cyfranogiad y cleifion a sefydlwyd grwp llywio i fynd â'r gwaith hwn ymlaen.
- Defnyddiodd yr Ymddiriedolaeth gyfweiliadau ymadael ar gyfer pob aelod o staff.

4.7 Gwadodd Stuart Gray, Prif Weithredwr Awdurdod Iechyd Dyfed Powys, bod y gwasanaethau yn Ysbyty'r Tywysog Philip yn cael eu meinhaus. Dywedodd bod buddsoddiad sylweddol yn cael ei wneud a bod yr Awdurdod yn ymrwymedig i'w ddyfodol, er y gallai fod angen newid o ran cydbwysedd yn y ffordd yr oedd ysbytai yn Sir Gaerfyrddin yn gweithredu. Cadarnhaodd bod yr Awdurdod Iechyd yn ceisio darparu arweiniad cryf o ran sefydlu'r fframwaith ar gyfer y dyfodol a gwnaed cynnydd sylweddol ym maes rheolaeth glinigol yn ystod y misoedd diwethaf. Cydnabyddodd y profwyd problemau yn y gorffennol yn y berthynas rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r Awdurdod Iechyd ac roedd yn ceisio mynd i'r afael â hyn.

4.8 Dywedodd Martin Morris, Prif Swyddog Cyngor Iechyd Cymunedol Llanelli, ei bod yn anodd mesur hyder y cyhoedd mewn ysbyty. Roedd yn ymwybodol o nifer fawr o bobl a oedd wedi canmol y driniaeth a gawsant yn Ysbyty'r Tywysog Philip, ond nad oedd hyn yn lleddfu'r pryderon a oedd yn gysylltiedig â marwolaeth Mr Reeves. Roedd yn anghytuno â beirniadaeth CHI bod uwch glinigwyr yn dadlau'n gyhoeddus am y gwasanaeth ac roedd o'r farn mai dim ond achos o gyfnewid barn broffesiynol oedd y digwyddiad. Cadarnhaodd fod Bwrdd yr Ymddiriedolaeth bob amser yn cyfarfod yn gyhoeddus a bod y Cyngor Iechyd Cymunedol a'r undebau llafur yn cael eu gwahodd i gyfrannu ym mhob eitem. Cytunodd bod angen symleiddio'r weithdrefn gwyno a'i gwneud yn haws i'w deall.

4.9 Yn olaf, diolchodd y Gweinidog i CHI am gynnal yr ymchwiliad ar ei rhan am eu diffuantrwydd a'u parodrydd i ateb cwestiynau'r Pwyllgor. Atgoffodd yr aelodau bod y rhaglen ar gyfer datblygu rheolaeth glinigol yng Nghymru yn rhaglen ddeng mlynedd ac y byddai'n bwysig gwneud cymariaethau â datblygiadau yn Lloegr. Cadarnhaodd y byddai swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol yn cydweithio

gyda'r Ymddiriedolaeth a CHI i lunio cynllun gweithredu er mwyn dwyn yr argymhellion yn eu blaen.

4.10 Diolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol. Roedd y Pwyllgor o'r farn y byddai angen trafodaeth bellach ac y byddai angen i CHI a'r Ymddiriedolaeth gytuno ar nifer o argymhellion yr adroddiad cyn paratoi cynllun gweithredu manwl. Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn derbyn y manylion diweddaraf ar y cynnydd ymhen chwe mis.

## **Eitem 5: Cofnodion cyfarfod 2 Tachwedd**

### **Papur: HSS-19-00(min)**

5.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod, yn amodol ar ychwanegu "Ymgynghorydd Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd, Ymarferydd Diogelwch Cofrestredig (RSP)" i ddatganiad budd Brian Hancock.

## **Eitem 6: Pwyntiau Gweithredu sy'n weddill o Gyfarfodydd Blaenorol**

### Prisio Presgripsiynau

6.1 Roedd y Gweinidog wedi ysgrifennu at Bwyllgor Fferyllol Cymru gyda chynigion yn gynharach yn yr wythnos ac roedd yn aros i dderbyn eu hymateb.

### Gofal Tymor Hir i'r Henoed

6.2 Gwnaed cais am fwy o wybodaeth ar y cynigion a wnaed yn Yr Alban ar gyfer ariannu gofal tymor hir.

## **Eitem 7: Papurau i'w Nodi**

7.1 Derbyniodd yr aelodau bapurau i'w nodi ar Staphylococcus aureus Methicillin Wrthiannol (MRSA) a Chyfrifoldebau Newydd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

7.2 Gofynnodd yr aelodau am fwy o wybodaeth ar afiechydon sy'n cael eu caffael mewn ysbytai neu sefydliadau iechyd ac, os ydynt ar gael, ystadegau yn cymharu Cymru â gwledydd Ewropeaidd arall.

## **Busnes Arall**

7.3 Byddai'r Gweinidog yn darparu'r manylion diweddaraf ar y rhaglen brechu rhag y ffliw cyn y Nadolig.

## **Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

## JANE HUTT YN CROESAWU GOSTYNGIADAU PELLACH I RESTRAU AROS

Cyhoeddwyd ffigurau rhestrau aros ysbytai ar gyfer mis Hydref 2000 heddiw (Dydd Mercher 22 Tachwedd), gan ddatgelu gostyngiad pellach yn nifer y cleifion sy'n aros am driniaeth fel cleifion mewnol neu achosion dydd. Ledled Cymru, gostyngodd rhestrau aros 1,655, gyda gostyngiadau ym mhob un o'r pum awdurdod iechyd. Gostyngodd nifer y cleifion sy'n aros am eu hapwyntiad cyntaf fel claf allanol hefyd am y tro cyntaf ers mis Rhagfyr y llynedd.

Mae'r sefyllfa o ran amseroedd aros hefyd yn gwella, gyda llai o gleifion yn aros am dros 12 a 18 mis am driniaeth fel cleifion mewnol neu achosion dydd yn ystod y mis diwethaf. Mae nifer y cleifion sy'n aros am dros 6 mis am eu hapwyntiad cyntaf fel cleifion allanol hefyd wedi gostwng am y tro cyntaf ers mis Mehefin 1999.

Dywedodd y Gweinidog Iechyd, Jane Hutt: "Mae ffigurau'r rhestrau aros hyn yn galonogol iawn. Mae'r £40 miliwn a ddyrenais i awdurdodau iechyd ym mis Mai er mwyn gostwng rhestrau aros a mynd i'r afael â phwysau brys yn dechrau gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i gleifion yng Nghymru. Mae'n hollbwysig bod yr NHS yn cynnal y gostyngiadau hyn i'r amseroedd aros yn ystod y misoedd nesaf dros gyfnod y gaeaf."

Caiff adroddiad y Grwp Datblygu Strategaeth Amseroedd Aros "*Amseroedd Aros yng Nghymru: Strategaeth ar gyfer y Dyfodol*" ei lansio yfory (Dydd Iau, 23 Tachwedd) yn y gynhadledd "Lleihau Amseroedd Aros yng Nghymru", a drefnwyd gan Dîm Dyfeisgarwch mewn Gofal newydd y Cynulliad Cenedlaethol. Bydd Brian Gibbons, y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn cyflwyno'r anerchiad cyntaf yn y gynhadledd, a gynhelir yn yr All Nations Centre yng Nghaerdydd. Y prif siaradwyr yw:

Sue Jennings, Pennaeth yr English National Patients Access Team;

Dr Paul Zollinger Read, meddyg teulu, Aelod o'r Tîm Mynediad i Gleifion Cenedlaethol;

Avril Johns, Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth NHS Ysbyty Brenhinol Chesterfield a Gogledd Swydd Derby – safle sy'n enghraifft wych o reolaeth maes cleifion allanol;

Susan Burnett, Cyfarwyddwr y Tîm Dyfeisgarwch mewn Gofal; a

Dennis Jessopp, Cadeirydd y Grwp Datblygu Strategol Amseroedd Aros.

Bydd y Tîm Dyfeisgarwch mewn Gofal hefyd yn lansio canllawiau newydd ar gyfer rheoli rhestrau aros "*Safonau Rheoli Disgwyliedig ar gyfer Rheoli Rhestrau Aros yng Nghymru.*"

**Nodiadau:**

Mae'r ffigurau sy'n dangos Rhestrau Aros Ysbytai'r NHS: Hydref 2000 ar gael yn natganiad ystadegol SDR 44/2000.

Mae copïau o'r Datganiad Ystadegol ar gael gan Mrs S. Day, Uned Dadansoddi Ystadegau Iechyd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ (ffôn 029 2082 3605) neu ar y Rhyngrwyd ar

[www.wales.nhs.uk/pubs.cfm](http://www.wales.nhs.uk/pubs.cfm)

Mae copïau o "Amseroedd Aros yng Nghymru: Strategaeth ar gyfer y Dyfodol" ar gael gan Adam Thomas, Adran Rheoli Perfformiad yr NHS, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ (ffôn 029 2082 3715)